



## Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Sir Fynwy

2013 – 2014



monmouthshire  
sir fynwy

## Rheolaeth Fersiwn

<b>Teitl</b>	Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Sir Fynwy 2013 - 2014
<b>Diben</b>	Dogfen gyfreithiol sydd ei hangen dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993
<b>Perchennog</b>	Cyngor Sir Fynwy
<b>Cymeradwywyd gan</b>	Cabinet
<b>Dyddiad</b>	4/6 /2014
<b>Fersiwn Rhif</b>	Un
<b>Statws</b>	Fersiwn swyddogol
<b>Amllder Adolygu</b>	Blynyddol
<b>Dyddiad adolygiad nesaf</b>	30/06/2015,
<b>Ymgynghoriad</b>	<i>GAVO, Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Sir Fynwy (MEDG), Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol, e-bost i'r holl randdeiliaid, Timau Rheolaeth Adrannol, Rhwydwaith Siaradwyr Cymraeg Sir Fynwy.</i>

Cyflwyniad	4
<b>Cydymffurfiaeth â'r Cynllun Iaith Gymraeg</b>	6
• Cynllun Gweithredu	
<b>Gwasanaethau Rheng Flaen Iaith Gymraeg</b>	
• Gwasanaeth Ieuenctid	17
• Dangosyddion Iaith Gymraeg	18
<b>Rheoli a Gweinyddu'r Cynllun</b>	20
• Caffaeliad	
• Llywodraethiant a chraffu cadarn	
• Cynlluniau Busnes Adrannol	
• Safonau Gwasanaethau yr Iaith Gymraeg	
• Gwefan	
<b>Sgiliau Ieithyddol - Cymharu Anghenion a Chapasiti Gwasanaeth</b>	21
• Sgiliau a hyfforddiant Adnoddau Dynol	
<b>Prif ffrydio'r Gymraeg</b>	22
• Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, newidiadau i weithdrefnau ac arfer da wrth hyrwyddo'r iaith	
<b>Dadansoddiad o Berfformiad yn ôl Blaenoriaethau a Thargedau</b>	24
• Meysydd sydd angen eu trafod	
• Arfer da	
• Monitro	
<b>Cyhoeddi Gwybodaeth a Pherfformiad</b>	25
Arfer Da	
Monitro	
<b>Gwybodaeth arall</b>	26
• E-lywodraeth	
<b>Manylion cyswllt</b>	26
<b>Atodiad 1 - Siaradwyr Cymraeg yn ôl Ward Cyfrifiad 2011</b>	27
<b>Atodiad 2 - Siaradwyr Cymraeg yn ôl adrannau Cyngor Sir Fynwy</b>	27

## Cyflwyniad

Ar 22 Tachwedd 2012 cymeradwyodd Cyngor Sir Fynwy ei Gynllun Iaith Gymraeg newydd. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn darparu ei wasanaethau i safon gyfartal yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. Mae'r adroddiad monitro blynyddol yma'n adlewyrchu'r gwaith a wnaed ym mlwyddyn ariannol 2013-14, yn dynodi cynnydd o gymharu â'r Cynllun Gweithredu ac yn rhoi manylion arfer da a datblygiadau sylweddol.

Mae'r Cyngor yn parhau i wneud camau breision wrth ddatblygu cwrpas ac ansawdd ei wybodaeth i'r cyhoedd sydd ar gael yn y Gymraeg. Mae canllawiau clir ac adnoddau yn awr ar gael i staff yng nghyswllt cyfieithu, darpariaeth gwasanaethau a gofynion yng nghyswllt y Gymraeg. Mae gwefan y Cyngor bellach yn ddwyieithog a gwneir gwaith pellach i gyfieithu dogfennau allweddol.

Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda phreswylwyr Sir Fynwy sy'n siarad Cymraeg ac yn gofyn iddynt wneud y dilynol:

- Defnyddio fersiwn Cymraeg y wefan pan maent yn chwilio am wybodaeth y Cyngor
- Dweud wrthym pan neu lle nad yw tudalennau Cymraeg ar y wefan yn gyfoes neu unrhyw faterion eraill
- Edrych ar ddogfennau strategol allweddol ac ymateb i ohebiaeth ymgysylltu i sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg yn Sir Fynwy
- Anfon gwybodaeth atynt am ddigwyddiadau Cymraeg, swyddi gwag ac ati
- Gweithredu fel rhyngwyneb rhwng y Cyngor, partneriaid a grwpiau iaith i ledaenu unrhyw wybodaeth Gymraeg, digwyddiadau ac ati.

Mae'n dystiolaeth o dwf sylweddol y Gymraeg yn Sir Fynwy dros yr ugain mlynedd fod y galw am wasanaethau Cymraeg adeg Cynllun Iaith Gymraeg cyntaf Cyngor Sir Fynwy yn 1998 yn ôl unrhyw gyfrif yn isel iawn (cyfrifiad 1991 - dim ond 2.3% o boblogaeth Sir Fynwy oedd yn siarad Cymraeg). Dangosodd cyfrifiad 2001 y gallai 9.3% o boblogaeth y sir siarad Cymraeg. Cafodd sefydlu dwy ysgol gynradd Gymraeg, Ysgol y Ffin ac Ysgol Gymraeg y Fenni, cynnwys y Gymraeg yn y cwricwlwm

cenedlaethol a thwf cynyddol ymysg preswylwyr o bob oedran mewn dysgu'r iaith i gyd eu hadlewyrchu yn y cynnydd sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae Cyfrifiad 2011 unwaith eto wedi dangos cynnydd bychan yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn Sir Fynwy o 9.3% i 9.9% neu 8,780 o bobl (ynghyd â Chyngor Sir Caerdydd, yn un o ddim ond dau Gyngor yng Nghymru i weld cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg). Mae'r Cyngor yn ddiweddar wedi llenwi holiadur ymchwiliad ffurfiol y Comisiynydd Iaith ar Safonau Iaith Gymraeg a ddangosodd ein bod eisoes yn gwneud cyfran uchel iawn o'r hyn y gofynnir i ni ei wneud yn y dyfodol agos. Y mater allweddol sydd angen ei drin yw lefel cysondeb gweithredu ar draws yr holl Gyngor.

Paul Matthews  
**Prif Weithredwr**

Cynghorydd Peter Fox  
**Arweinydd y Cyngor**

Cynghorydd Phylip Hobson  
**Dirprwy Arweinydd y Cyngor  
a Hyrwyddwr Cydraddoldeb**

## Cydymffurfiaeth â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Mae Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Sir Fynwy yn cynnwys y cynllun gweithredu dilynol o fesurau a dyddiadau targed.

### Cynllun Gweithredu 2013 -2014

#### Cynllunio a Chyflawni Gwasanaeth

PARAGRAFF	MESUR	TARGED BLWYDDYN DAU	CYNNYDD	CYFRIFOLDEB
4.1.1	Asesu canlyniadau ieithyddol y polisïau neu'r mentrau newydd	BI2-Archwilio sampl o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i fesur nifer y newidiadau i bolisïau iaith Gymraeg. BI2 - Fel blwyddyn 1, tra'n gweld cynnydd canran mewn effeithlonrwydd.	Mae'r Gymraeg yn un o'r nodweddion gwarchoddedig a ystyrir yn ofalus yn y broses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Fe'i cynhwysir yn yr "Her Ddechreuol" a dogfen sgrinio'r Asesiad. Mae hefyd yn un o'r nodweddion gwarchoddedig yn unrhyw hyfforddiant ar yr Asesiad a hyfforddiant cyfarwyddo gan Gyngor Sir Fynwy. Roedd cynigion arbedion ariannol y Cyngor yn ddarn allweddol o waith oedd unwaith eto â'r Gymraeg fel nodwedd warchoddedig ychwanegol. Cynhaliwyd sgysiau manwl yn ystod y broses am godi tâl am gludiant ysgol a'r hawl i addysg cyfrwng Cymraeg.	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg/Awduron polisïau ac ati
4.1.2	Cyhoeddi canllawiau i staff ynglŷn ag asesu cynigion newydd	Adolygu'r canllawiau sydd ar gael a'u hail-gyhoeddi	Adolygu polisi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a sesiynau gyda thimau Rheoli Adrannol. Diwygio, ac ailgyhoeddi canllawiau gyda chyhoeddusrwydd ar "Y Pwynt".	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg

4.3, 4.4, 4.5, 4.6	Sicrhau fod y Cyngor ac unrhyw drydydd parti perthnasol yn cydymffurfio â'r Cynllun	Archwiliad ddwywaith y flwyddyn	Caiff manylion am gydymffurfiaeth â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn awr eu cynnwys yn y dogfennau contract. Caiff unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod monitro eu trin yn ffurfiol.	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg /Tîm Caffael
--------------------	---	---------------------------------	--	--

### Delio gyda'r Cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

PARAGRAFF	MESUR	TARGED BLWYDDYN DAU	CYNNYDD	CYFRIFOLDEB
5.1.1, 5.1.2	Croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg ac ateb yn y dewis iaith	Archwilio gweithdrefnau'n chwarterol	Daw'r holl ohebiaeth Gymraeg i Swyddog Cymorth yr Iaith Gymraeg a Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg i'w chyfieithu. Maent hefyd yn sicrhau y caiff ymatebion eu cyfieithu.	Rheolwr Mynediad Cwsmeriaid/ Swyddog Cymorth yr Iaith Gymraeg/ Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg
5.1.3	Sicrhau bod y raddfa amser ar gyfer ymateb i lythyrau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	Archwilio gweithdrefnau'n chwarterol	Caiff yr holl waith cyfieithu ei drin gan Swyddog Cymorth yr Iaith Gymraeg/ Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg gan felly sicrhau y cydymffurfir ag amserlenni.	Rheolwr Mynediad Cwsmeriaid/ Swyddog Cymorth yr Iaith Gymraeg/ Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg
5.1.4	Llunio rhestr o enwau'r sawl sy'n dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.	Monitro'r gronfa ddata	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn cynnal cronfa ddata Excel. Sefydlir gweithgor i edrych ar y mater.	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg/ Swyddog Arloesedd/ SRS Technoleg Gwybodaeth

5.1.5	Cyhoeddi canllawiau diwygiedig i staff ynglŷn â gohebiaeth yn Gymraeg.	Adolygu, diweddarau ac ail-gyhoeddi canllawiau fel y bo'n briodol	Cynllun iaith Gymraeg newydd yn cynnwys manylion a anfonwyd at staff allweddol a'i gyhoeddi ar "Y Pwynt"	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg/Rheolwr Mynediad Cwsmeriaid
5.1.6	Sicrhau bod cylchlythyrau a llythyrau safonol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog	Llunio dogfen mewn cysylltiad gyda meysydd gwasanaeth yn amlinellu protocolau	Cyhoeddi cylchlythyrau a llythyrau safonol i'r cyhoedd yn ddwyieithog	Holl staff adrannol perthnasol
5.1.7	Sicrhau yr anfonir ateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth Gymraeg a dderbynnir	Archwilio gweithdrefnau'n chwarterol	Daw'r holl ohebiaeth Gymraeg i Swyddog Cymorth yr Iaith Gymraeg a Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg i'w gyfieithu. Maent hefyd yn sicrhau y caiff ymatebion eu cyfieithu.	Rheolwr Mynediad Cwsmeriaid/ Swyddog Cymorth yr Iaith Gymraeg/ Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg
5.1.8	Sicrhau bod gohebiaeth yn Gymraeg yn derbyn ateb yn Gymraeg	Archwilio gweithdrefnau'n chwarterol	Daw'r holl ohebiaeth Gymraeg i Swyddog Cymorth yr Iaith Gymraeg a Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg i'w gyfieithu. Maent hefyd yn sicrhau y caiff ymatebion eu cyfieithu	Rheolwr Mynediad Cwsmeriaid/ Swyddog Cymorth yr Iaith Gymraeg/ Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg
5.1.9	Datblygu ymateb dwyieithog i ohebiaeth awtomatig	Gwneud yr holl ohebiaeth awtomatig yn ddwyieithog. Archwilio ac adolygu gweithdrefnau cyfredol.	Caiff deunydd treth gyngor ac etholiadau eu cynhyrchu'n ddwyieithog yn awtomatig.	Swyddog Cymorth yr Iaith Gymraeg/ Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg/Penaethiaid Gwasanaethau



5.2.1	Ateb galwadau ffôn yn ddwyieithog	Archwilio ac adolygu trwy gynllun 'cwsmer cudd'.	<b>Mae angen gweithredu ar y maes yma</b>	Rheolwr Mynediad Cwsmeriaid/ Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg/Menter Iaith BGTM
5.2.2	Darparu hyfforddiant ffôn a hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg i aelodau staff newydd	Gwerthuso'r gweithdrefnau presennol	Caiff hyfforddiant ffôn a sesiwn ymwybyddiaeth eu cynnwys fel rhan o Raglen Cynefino Staff a'u cynnwys yn y Cynllun Iaith Gymraeg newydd	Hyfforddiant Corfforaethol/Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg
5.2.3	Cyhoeddi canllawiau i staff ar sut i drin galwadau ffôn Cymraeg.	Adolygu Canllawiau Staff y Cynllun Iaith Gymraeg a'u hail-adolygu.	Mae manylion yn y Cynllun Iaith Gymraeg a rhoddir sylw iddo yn y rhaglen cynefino staff	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg / Rheolwr Mynediad Cwsmeriaid
5.2.4	Darparu negeseuon corfforaethol dwyieithog ar beiriannau ateb.	Archwilio ac adolygu'r gweithdrefnau presennol.	<b>Mae angen gweithredu ar y maes yma</b>	Goruchwyliwr Derbynfa/Rheolwr Mynediad Cwsmeriaid/ Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg
5.3.1	Gwahodd cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg neu Saesneg	Adolygu canllawiau, diweddarau a rhoi cyhoeddusrwydd eto.	Ychwanegwyd llinell ar wahoddiadau'r Cyngor i gyfarfodydd.	Gwasanaethau Democrataidd/ Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg

5.3.4	Datblygu gwefan dwyieithog	Adolygu'r cynnwys Cymraeg. Monitro % o gynnwys Saesneg gyda'r % o'r cynnwys Cymraeg.	Prynwyd gwefan newydd ac mae yn ei lle. Mae'r gwaith o gyfieithu dogfennau ac unrhyw dudalennau ar ôl yn cael ei wneud ar hyn o bryd. Nid yw'r system rheoli newydd yn caniatáu llwytho tudalennau Saesneg heb fersiynau Cymraeg cyfatebol er mwyn cadw integriti y safle Cymraeg. Mae siaradwyr Cymraeg sir Fynwy yn defnyddio ac yn plismona'r safle ar ein rhan.	Tîm Gwefan, Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg
-------	----------------------------	--	---	---

## Wyneb Cyhoeddus y Cyngor

PARAGRAFF	MESUR	TARGED BLWYDDYN DAU	CYNNYDD	CYFRIFOLDEB
6.1.1	Sefydlu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog	Adolygu, diweddarau a rhoi cyhoeddusrwydd eto	Strategaeth hunaniaeth corfforaethol (adroddiad brandio) wedi'i ddatblygu ac yn cael ei ddefnyddio.	Tîm Cyfathrebu Corfforaethol
6.1.2	Cyhoeddi canllawiau ar hunaniaeth gorfforaethol	Adolygu, diweddarau a rhoi cyhoeddusrwydd eto	Cyhoeddwyd ar "Y Pwynt"	Tîm Cyfathrebu Corfforaethol

6.2	Sicrhau bod arwyddion newydd a rhai sydd yn cymryd eu lle mewn mannau cyhoeddus yn ddwyieithog; cyhoeddi canllawiau ar hyn	Archwilio ac adolygu'r gweithdrefnau presennol. Rhoi cyhoeddusrwydd eto i staff.	Datblygwyd nodyn canllaw a'i anfon at Bennaeth Gwasanaethau Eiddo sy'n gyfrifol am yr holl arwyddion ar eiddo'r Cyngor. Cynhwysir manylion hefyd yn y Cynllun Iaith Gymraeg newydd a gafodd ei ddosbarthu'n eang a'i gyhoeddi ar "Y Pwynt".	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg /Gwasanaethau Eiddo
6.2.5, 6.2.6	Annog y defnydd o enwau Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd a datblygu rhestr safonol o enwau lleoedd yn Gymraeg	(a) Ymgynghori â Chynghorau Tref/ Cymuned i sicrhau eu bod yn hapus â'r rhestr a baratowyd. (b) Creu a chyhoeddi dogfen protocol arwyddion.	(a) Cynhaliwyd cyfarfod gyda Chynghorau Tref a Chymuned am brotocolau enwi (b) Ar hyn o bryd defnyddir y rhestr safonol o leoedd enwau Cymraeg a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg 3 blynedd yn ôl pan oedd yn cynghori ar gyfieithu neu gywirdeb ceisiadau cyfieithu enwau lleoedd. Datblygwyd a chytunwyd ar brotocol gyda swyddogion Priffyrdd a GIS sy'n delio gyda'r Land and Property Gazetteer.	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg / Priffyrdd
6.3	Cyhoeddi meini prawf ynghylch y dogfennau a ddylai fod yn ddwyieithog	Adolygu, diweddarau ac ail-gyhoeddi	Fel rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg newydd, cafodd polisi golygyddol ei ddatblygu a'i gyhoeddi ar "Y Pwynt" fel dogfen ar wahân ac fel rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg
6.4.2	Cyhoeddi canllawiau ar lunio ffurflenni	Adolygu, diweddarau ac ail-gyhoeddi	Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn rhoi canllawiau a dolen i Gomisiynydd y Gymraeg ar ddylunio dwyieithog. Mae'r Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg a Swyddog	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg

			Cymomrth yr Iaith Gymraeg hefyd yn cynghori adrannau ar ddylunio dwyieithog os oes angen.	
6.5.1	Cyhoeddi datganiadau i'r wasg yn Gymraeg a dwyieithog lle'n briodol	Cynyddu'r % o ddatganiadau i'r wasg Cymraeg/dwyieithog i 50%.	Wedi trafod gyda'r Pennaeth Cyfathrebu - byddwn yn edrych ar sicrhau fod yr holl ddatganiadau i'r wasg ar y wefan yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd datganiadau i'r wasg Gymraeg yn Gymraeg os yw'n ymwneud â phwnc yn ymwneud â'r Gymraeg. Bydd datganiadau i'r wasg ar y wefan gorfforaethol yn Gymraeg a Saesneg.	Tîm Cyfathrebu Corfforaethol
6.6.1	Cyflwyno arddangosfeydd ac arddangosiadau y Cyngor yn ddwyieithog	Cynyddu % o'r arddangosfeydd/ arddangosiadau Cymraeg i 20%.	Trefnwyd cyfarfod ar gyfer 30 Ebrill 2014 gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Hamdden i sicrhau y caiff arddangosiadau ac ati eu gwneud yn ddwyieithog.	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg / Tîm Cyfathrebu Corfforaethol
6.6.2	Cyhoeddi canllawiau ar hysbysebu a chyhoeddus-rwydd	Adolygu, diweddarau ac ail-gyhoeddi	Mae manylion hyn i gyd yn ein Cynllun Iaith Gymraeg, canllawiau brandio corfforaethol a'n polisi golygyddol.	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg / Tîm Cyfathrebu Corfforaethol
6.6.3	Cynnal arolygon cyhoeddus yn y ddwy iaith	Cynnal adolygiad o arolygon cyhoeddus. Canfod % yr arolygon Cymraeg/Dwyieithog o gymharu ag uniaith Saesneg.	Mae'r arolygon yn awr yn dechrau cael eu cynnal yn ddwyieithog. Cefnogir yr arolygon gan y Tîm Partneriaeth ac Ymgysylltu ac mae'r Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg a'r Swyddog Cefnogaeth Iaith Gymraeg yn aelodau i sicrhau cydymffurfiaeth.	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg /Pennaeth Partneriaeth ac Ymgysylltu/Pennaethiaid Adrannol

6.7.1	Llunio hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus yn ddwyieithog	Ceisio/crynhoi cofrestr o hysbysiadau cyhoeddus. Llunio 30% o hysbysiadau Cymraeg/dwyieithog o gymharu ag uniaith Saesneg.	<b>Cafodd rhai hysbysiadau eu gwneud ond mae angen adolygu'r maes hwn a threfnwyd cyfarfod rhwng y Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i drafod y ffordd ymlaen.</b>	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg /Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol
6.7.2	Hysbysebu yn Gymraeg am swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol.	Arfer presennol – hysbysebu'n ddwyieithog.	Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cynghori fod swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol yn cael eu hysbysebu yn Gymraeg yn unig.	Adnoddau Dynol/ Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg
6.7.3	Cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio	Adolygu, diweddarau ac ail-gyhoeddi	Mae cyfarfod gydag Adnoddau Dynol wedi amlinellu'r broses recriwtio.	Adnoddau Dynol/ Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg
6.8.1	Sicrhau bod dewis iaith ar gael yng nghyfarfodydd y Cyngor.	Archwilio ac adolygu gweithdrefnau. Llunio canllawiau mewn cydweithrediad â'r swyddogion perthnasol.	Ychwanegwyd llinell i hysbysiadau gwahoddiad swyddogol i gyfarfodydd y Cyngor yn gwahodd pobl i gymryd rhan mewn cyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg.	Gwasanaethau Democrataidd/ Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg

## Rhoi'r Cynllun ar waith a'i fonitro

PARAGRAFF	MESUR	TARGED BLWYDDYN DAU	CYNNYDD	CYFRIFOLDEB
7.1.1	Datblygu Strategaeth Sgiliau leithyddol Cymraeg	Sicrhau gweithredu a rhoi cyhoeddusrwydd eto.	Y Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol yn monitro'r Strategaeth Sgiliau leithyddol Cymraeg.	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg
7.1.2	Pennu a oes swyddi penodol lle mae hyfedredd yn y Gymraeg yn hanfodol	Adolygu'r swyddi presennol a'r galw drwy'r Strategaeth Sgiliau leithyddol Cymraeg	Caiff ei drin fel rhan o Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Sgiliau leithyddol Cymraeg	Adnoddau Dynol/ Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg/ Penaethiaid Gwasanaeth
7.1.3	Cynnal arolygon i ganfod nifer y staff sy'n siarad Cymraeg neu'n dysgu'r iaith, a'u lleoliad o fewn y sefydliad	Adolygu'r swyddi presennol a'r galw drwy'r Strategaeth Sgiliau leithyddol Cymraeg	Mae Adnoddau Dynol yn cynnal archwiliad corfforaethol. Hefyd caiff staff Gofal Cymdeithasol eu harchwilio i sicrhau ymwybyddiaeth o sgiliau staff i weithredu strategaeth 'Mwy na Geiriau'.	Adnoddau Dynol/ Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg / Adrannau
7.1.4	Paratoir strategaeth i fynd i'r afael â diffyg staff sy'n siarad Cymraeg mewn meysydd gwasanaeth penodol	Adolygu'r swyddi presennol a'r galw drwy'r Strategaeth Sgiliau leithyddol Cymraeg	Caiff ei drin fel rhan o Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Sgiliau leithyddol Cymraeg	Adnoddau Dynol/ Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg / Adrannau

7.2	Datblygu rhaglen hyfforddi iaith Gymraeg	Adolygu'r rhaglen bresennol, rhoi mesurau newydd ar waith	Cynhelir dosbarthiadau a chyrsgiau blasu yn flynyddol.	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg
7.3	Ystyried gallu ieithyddol wrth recriwtio staff	Asesu gofynion ieithyddol swyddi gwag	Cafodd y mater hwn ei drafod gydag Adnoddau Dynol ac mae'r broses ar waith. <b>Bydd angen monitro cydymffurfiaeth.</b>	Adnoddau Dynol/ Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg/ Adrannau
7.4	Annog hyfforddiant galwedigaethol yn y Gymraeg	Adolygu a chanfod y meysydd lle byddai hyfforddiant yn ddymunol	Neb wedi manteisio ar y cynnig eto. Bydd y Cyngor yn parhau i'w gynnig.	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg / Hyfforddiant Corfforaethol
7.5.2	Sicrhau bod meddalwedd Cysgliad ar gael i staff sy'n siarad Cymraeg	Cydweithio gyda'r adran TG i asesu prosesau/ymarferoldeb	Prynwyd 10 trwydded ac ymrestru staff i ddefnyddio'r feddalwedd.	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg/Darparydd Technoleg Gwybodaeth SRS
7.6	Delio â chwynion yn Gymraeg	Adolygu/Archwilio protocolau cwynion. Canfod % y cwynion a dderbyniwyd yn Gymraeg a dderbyniodd ateb yn Gymraeg o fewn y raddfa amser angenrheidiol. Sicrhau bod 100% o'r cwynion a dderbyniwyd yn Gymraeg yn cael eu hateb yn Gymraeg/dwyieithog	Caiff 100% o'r cwynion a dderbynnir yn Gymraeg ateb Cymraeg. Caiff 100% ateb yn yr amserlen ofynnol. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn 2013-14.	Swyddog Cwynion Cwsmeriaid Corfforaethol / Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg / Swyddog adrannol perthnasol

7.7.2	Paratoi a chyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg	Arfer presennol	Aiff Adroddiad Monitro Blynyddol i'r Cabinet ar 4 Mehefin 2014 ac wedyn i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg erbyn 30 Mehefin 2013	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg
8.1, 8.2, 8.3	Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun	Arfer presennol	Cyhoeddir yn allanol ar wefan ddwyieithog y Cyngor, cyhoeddir yn fewnol ar "Y Pwynt" ac yng nghylchgrawn staff y Cyngor "Team Spirit". Aiff i i Rwydwaith Siaradwyr Cymraeg Sir Fynwy o 130 o bobl a sefydliadau partner pan gaiff ei gytuno'n derfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg. Aiff copi ar Facebook a Twitter.	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg /Cyfathrebu Corfforaethol
8.4	Annog datblygu Menter Iaith	Trefnu cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn rhwng Menter BGTM a Swyddog yr Iaith Gymraeg	Mae'r Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn Gyd-Gadeirydd Menter BGTM ac yn cyd-fynd yn llawn â'i ddatblygiad parhaus.	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg
9	Adolygu gweithrediad y Cynllun a'r targedau.	Arfer presennol	Adolygir cynnydd yn rheolaidd fel rhan o fonitro'r Cynllun Prosiect mewn adolygiadau perfformiad y Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg gan y rheolwr llinell. Caiff hefyd ei fonitro gan y Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol.	Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg /Pennaeth Adnoddau a Rheoli Perfformiad



## Gwasanaethau Rheng-flaen yn y Gymraeg

### Gwasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy yn gweithio gyda'r iaith Gymraeg a'i diwylliant 2013-14

#### Clwb y Fenni - nosweithiau Mercher

- Gweithredir y clwb yma ar gyfer disgyblion o'r ysgol gynradd Gymraeg leol. Mae'r Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc yn cynnal trafodaethau gyda'r Urdd i gyd-ariannu swyddog gyda Torfaen a Blaenau Gwent.
- Cynhaliodd y Fenter Iaith gylch chwarae cyfrwng Gymraeg yn Ilwyddiannus ym mis Chwefror ar gyfer Ysgol Gymraeg y Fenni.
- Mae'r Fenter Iaith yn cynnal Clwb Carco ar gyfer Ysgol Gymraeg y Fenni unwaith yr wythnos.

#### Dug Caeredin - nosweithiau Mawrth, Y Fenni

- Caiff y clwb yma ei redeg ar gyfer pobl ifanc sy'n gorffen eu gwobrau Dug Caeredin drwy gyfrwng y Gymraeg. Maent un ai ar lefel arian neu aur ar hyn o bryd. Mae cyfanswm o 18 yn y grŵp ac mae'r nifer sy'n bresennol yn amrywio bob wythnos yn dibynnu ar y maes llafur.

#### Clwb Cil-y-Coed - amser cinio dydd Mercher

- Ar hyn o bryd mae hwn yn gyfarfod grŵp anffurfiol gyda'r Urdd gan ei fod ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed gyda 12 yn mynychu'n wythnosol. Mae'r clwb yn eu cefnogi wrth ddefnyddio'r Gymraeg ac yn cynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r cyfan yn dysgu'r Gymraeg fel ail iaith. Y bwriad yw i'r bobl ifanc hyn wirfoddoli i gynnal darpariaeth gweithgareddau iau ar gyfer disgyblion yn yr ysgol gynradd Gymraeg leol.

## Dydd Gŵyl Dewi

- Mae pob darpariaeth o fewn y gwasanaeth ieuencid yn dathlu'r diwrnod yma gyda phobl ifanc drwy amrywiaeth o weithgareddau sy'n cynnwys iaith, diwylliant a hanes.

## Darpariaeth cwnsela

- Mae gennym ddarpariaeth cwnsela ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed. Mae aelod o'r tîm yn siarad Cymraeg a all gynnig cwnsela drwy gyfrwng y Gymraeg os oes angen.

## Dangosyddion Iaith Gymraeg

Nifer o flynyddoedd yn ôl, dynododd Bwrdd yr Iaith Gymraeg (bellach Swyddfa'r Comisiynydd Iaith) 6 o Ddangosyddion (DIG 1-6) penodol ar y Gymraeg ac argymhell y dylid eu cynnwys yng Nghynlluniau Iaith Gymraeg pob awdurdod lleol. Islaw mae adroddiad manwl ar gynnydd y Cyngor ar y dangosyddion hyn. Er mwyn ceisio osgoi ailadrodd bydd y dangosyddion yn ymddangos ar bwytiau penodol yn y ddogfen yma yn yr adrannau lle teimlir eu bod yn ffitio orau.

## Staffio (DIG 2, DIG 5)

- Cytunodd y Cabinet ar Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg ar 5 Mehefin 2013 a dechreuodd y gwaith ar unwaith ar y cynllun gweithredu 3 blynedd.
- Mae'r Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn parhau â'r dasg o ganfod siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ac ati ymysg y staff ac Aelodau Etholedig y Cyngor. Cynhelir archwiliad llawn fel rhan o'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol Cymraeg a bydd yn galluogi'r Cyngor i asesu anghenion y dyfodol, recriwtio, hyfforddiant ac ati.
- Mae Gofal Cymdeithasol a Thai hefyd yn cynnal eu harchwiliad staff eu hunain i geisio sicrhau fod ganddynt nifer ddigonol o staff i fedru darparu gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg dan strategaeth 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru.
- Hyd yma rydym wedi dynodi bod 24 o bobl sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, 16 canolraddol (Canolradd a Sylfaen) a 38 dysgwr (Sylfaen a Mynediad). Mae gennym ddsbarth o 6 yn gwneud Cwrs Mynediad blwyddyn 1 a chynhaliwyd cwrs blas ar y Gymraeg llwyddiannus iawn ar gyfer 21 aelod o staff ym Mai 2013.

- Mae'r Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg wedi cysylltu â staff rhugl i asesu eu sgiliau a gofyn os byddent yn barod gweithredu fel siaradwyr Cymraeg trydydd parti ar gyfer Cyngor ac mae'n disgwyl ymateb gan rai. Bydd y rhestr derfynol yn cynnwys manylion enwau, adran, swydd a rhif cyswllt ac anfonir canllawiau at yr holl staff yn tanlinellu'r gwasanaeth ateb ffôn a rhoddir y rhestr ar 'Y Pwynt'.
- Caiff swyddi eu hadolygu pan ddeuant yn wag ac ystyrir y gofynon ieithyddol. Mae angen hysbysebu yn Gymreg y swyddi a ddynodwyd rhai fel Cymraeg yn Hanfodol.
- Y weithdrefn bresennol yw os yw person yn dymuno derbyn gwasanaeth yn Gymraeg yw trosglwyddo'r galwad/e-bost i'r Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg neu Swyddog Cymorth yr Iaith Gymraeg neu i aelod o restr o siaradwyr Cymraeg (sydd ar gael i'r holl staff drwy 'Y Pwynt') a all drin yr ymholiad neu weithredu fel trydydd parti.
- Mae manylion y protocolau ar gyfer delio gyda gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg hefyd yn nogfen Canllawiau Staff y Cynllun Iaith Gymraeg.

## Rheoli a Gweinyddu'r Cynllun

### **Caffaeliad (DIG 1)**

- Mae'r Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg wedi adolygu dogfennau contract y Cyngor a ddatblygwyd gan Gonsortium Pwrcasu De Cymru. Mae'r consortiwm yma'n cynnwys llawer o gynghorau De Cymru ac mae'r dogfennau yn cydymffurfio gyda phob agwedd o ddeddfwriaeth cydraddoldeb (Mesur yr Iaith Gymraeg 2011 a Deddf Cydraddoldeb 2010). Nid oes gan y Cyngor unrhyw gontractau sydd wedi'u cysylltu'n benodol gyda darpariaeth yn y Gymraeg.
- Ni adroddwyd unrhyw fethiant trydydd parti i gydymffurfio gyda'r Cynllun.

### **Llywodraethiant a chraffu mewnol cadarn**

- Mae Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg wedi datblygu cynllun prosiect cynhwysfawr sy'n rhoi manylion y camau gweithredu sydd eu hangen a'r amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer cwblhau a nodwyd yng nghynllun gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg. Caiff y cynllun prosiect ei drafod a'i graffu'n fisol gyda'r Pennaeth Partneriaethau Strategol ac yn chwarterol gan y Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol.

### **Cynlluniau busnes adrannol/gwasanaeth –**

- Mae'r Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg wedi cael trafodaethau dechreuol gyda'r Tîm Perfformiad a Gwella am hyn a threfnwyd cyfarfod i ganfod yr union wybodaeth sydd angen ei monitro ac adrodd arni.

### Safon gwasanaethau Cymraeg (DIG6)

- Dengys cofnodion na dderbyniodd y Cyngor unrhyw gwynion yn ymwneud â gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod 2013-2014. Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg - Canllawiau i Staff - yn rhoi canllawiau ar gwynion yn ymwneud â maes gwasanaeth penodol a hefyd gwynion yn ymwneud â'r Cynllun Iaith Gymraeg.

### Gwefan

- Cwblhawyd tua 90%+ o'r wefan Gorfforaethol. Mae'r Cyngor wedi prynu gwefan newydd ac wedi cyfieithu bron yr holl dudalennau. Mae gan y wefan newydd system rheolaeth nad yw'n caniatáu cyhoeddi unrhyw dudalennau Saesneg heb y dudalen Gymraeg gyfatebol a dylai hyn warantu integriti'r safle Cymraeg yn y dyfodol.. Mae'r Cyngor yn falch iawn o'r cynnydd a wnaeth gyda'r prosiect mawr yma.

## Sgiliau Ieithyddol: Cymharu Anghenion a Chapasiti Gwasanaeth

### Adnoddau Dynol - Sgiliau a hyfforddiant (DIG 4a a 4b)

- Mae'r Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg wedi gwneud peth cynnydd dechreuol wrth leoli siaradwyr a dysgwyr Cymraeg: dynodwyd 24 o siaradwyr rhugl, 16 canolraddol (Canolradd a Sylfaen) a 38 dysgwr (Sylfaen a Mynediad) hyd yma.  
Cynhelir archwiliad llawn er mwyn rhoi gwybodaeth ar gyfer ein gofynion dan y Strategaeth Sgiliau Ieithyddol Cymraeg a strategaeth 'Mwy na Geiriau'. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn y broses o archwilio eu staff ac maent hefyd wedi cynnal yr ymarferiad yma gyda darparwyr gofal yn y sector preifat.
- Cynhaliodd y Cyngor **gwrs blasu 2 ddiwrnod** ym Mehefin 2013 a gallodd 21 aelod o staff gael profiad o sut beth fyddai dysgu Cymraeg a beth y byddai'r holl broses yn ei olygu.
- Roedd **cyrsgiau Cymraeg yn y gweithle** ar gael i staff a dechreuodd 10 o staff fynychu cyrsiau hyn ond fel arfer roedd hyn wedi gostwng i 6 cyson erbyn diwedd Mawrth 2014. Disgwylir cynnig cwrs blasu 2 ddiwrnod a Chwrs Mynediad ym Medi 2014. Rydym hefyd wedi trafod posibilrwydd Clwb Clonc ar gyfer rhai a hoffai ymarfer neu gynyddu eu hyder yn y Gymraeg.

- Y **broses sefydlu gorfforaethol**, y mae angen i holl aelodau newydd o staff ei mynychu yn ogystal â rhai nad ydynt wedi dilyn y broses eto, yn cynnwys sut i ateb y ffôn yn ddwyieithog, elfen o hyfforddiant sylfaenol o ymwybyddiaeth iaith, peth gwybodaeth ar hanes y Gymraeg, agweddau tuag ati a rhai o ofynoin allweddol Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor.

## Prif ffrydio'r Gymraeg

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, newidiadau gweithdrefn ac arfer da yn hyrwyddo'r iaith.

- Mae'r Cyngor wedi **cyflawni ar fater allweddol yn ymwneud â'r Gymraeg** - mae wedi ymateb yn fanwl i ymchwiliad ffurfiol Comisiynydd y Gymraeg ar y safonau arfaethedig ar gyfer y Gymraeg. Canolbwyntiodd yr ymchwiliad ar yr hyn y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'w wneud yn ei Gynlluniau Iaith Gymraeg blaenorol a chyfredol. Ysgrifennwyd y cyntaf o'r cynlluniau hyn yn 1998.
- Wrth benderfynu ar bolisiau newydd, bydd y Cyngor yn asesu unrhyw effaith bosibl ar ei allu i gyflawni'r ymrwymadau a gynhwysir yn y Cynllun. Lle mae'n ymarferol, bydd y Cyngor yn defnyddio polisiau a chynlluniau newydd/wedi eu diweddarau i hwyluso defnydd y Gymraeg a chynorthwyo'r sefydliad yn ei waith i **brif ffrydio materion cydraddoldeb**.
- Cafodd y **broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb** ei hadolygu dair gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf gyda'r nod o'i gwneud yn fwy cyfeillgar i ddefnyddwyr a galluogi staff i ennill dealltwriaeth y sut y gwneir penderfyniadau gael effaith niweidiol ar bobl o'r nodweddion gwarchodedig. Er nad yw'r Gymraeg yn dod o dan fantol Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'r Cyngor yn ei hystyried fel dogfed nodwedd warchodedig i danlinellu ei bwysigrwydd yn y broses Asesu'r Effaith a gobeithir y bydd hyn yn dechrau ei weld yn cael ei brif ffrydio mewn polisiau, gweithdrefnau a swyddogaethau newydd.
- Ysgrifennwyd polisi golygyddol Cymraeg a'i roi ar "Y Pwynt".
- Daethpwyd i gytundeb gyda'r gwneuthurydd arwyddion Monwel Hankison i anfon arwyddion at Gyngor Sir Fynwy i'w prawfddarllen er mwyn dileu camgymeriadau sillafu sy'n gostus, yn achosi embaras ac yn arwain at gwynion ffurfiol.
- Cafodd polisi'r Cyngor ar rifo ac enwi strydoedd ei adolygu a'i ddiweddarau.

- Mae Siaradwyr Sir Fynwy yn gronfa ddata o drigolion Sir Fynwy sy'n siarad Cymraeg a nododd ddiddordeb mewn mynegi barn am strategaethau a pholisiau ac ati. Mae 130 o bobl ar y gronfa ddata ar hyn o bryd.
- Mae Adnoddau Dynol yn rhoi pecyn TWF i bob aelod beichiog o staff.
- Anfonwyd ymgynghoriad statudol y Cyngor ar y Cynllun Integredig Sengl yn Gymraeg yn unig at ysgolion Cymraeg.
- Ymgynghoriad Cynllun Integredig Sengl - defnyddiwyd iPads gyda dewis o fersiynau Cymraeg neu Saesneg i'w llenwi.
- Mynychodd 21 aelod o staff gwrs blasu 2 ddiwrnod yn Neuadd y Sir, Brynbuga.
- 10 dechreuwr newydd ar gyfer dosbarth Cymraeg Cwrs Mynediad ym Mrynbuga Medi 2013.
- Ar ôl cyfarfod gyda Gŵyl Fwyd a Gŵyl Aeaf y Fenni, mae'r Cyngor wedi hwyluso cyfieithu hysbysebu, bathodynau ac ati.
- Trefnwyd cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfod cynllunio yn Neuadd y Sir, Brynbuga - y tro cyntaf i hyn ddigwydd yn hanes Cyngor Sir Fynwy a'i ragflaenydd Cyngor Sir Gwent a Chyngor Dosbarth Mynwy.
- Aeth yr Urdd â dosbarth Lefel A blwyddyn 2 Ysgol Gyfun Cil-y-coed i Glan Llyn.
- Anfonwyd gwefan Gymraeg newydd y Cyngor at Siaradwyr Sir Fynwy i'w hadolygu a rhoi sylwadau arni.
- Caiff cyfweiliadau teledu a radio yn awr eu rhoi yn y Gymreg gan staff y Cyngor sy'n siarad yn yr iaith.
- Cynhaliwyd archwiliad staff o ddarparwyr gofal preifat ar gyfer dibenion strategaeth "Mwy na geiriau".
- Ysgrifennwyde **nodyn canllaw** gweithdrefnol ar gyfer staff Priffyrdd i sicrhau fod arwyddion stryd yn cael eu cyfieithu'n cywir.
- Yn ogystal â hyn dosbarthwyd rhestr enwau lleoedd Bwrdd y Gymraeg i'r Adran Priffyrdd i sicrhau fod arwyddion yn gywir.
- Cyhoeddwyd dogfen gynhwysfawr ar y broses gyfieithu i'r Gymraeg ar "Y Pwynt".
- Mae Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg y Cyngor yn mynychu Grŵp Deddf a chyfarfodydd Rhwydiaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac mae'n lledaenu arfer da i'w brif ffrydio drwy'r Cyngor.
- Mae **Grŵp Partneriaeth Strategol y Gymraeg** dan arweiniad y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc yn dod ynghyd â chynrychiolwyr o fudiadau fel yr Urdd, Menter Iaith a Chyngor Sir Fynwy, ac Ysgol Gyfun Gwynllyw, Ysgol y Ffin ac Ysgol y Fenni at ei gilydd er mwyn trafod darpariaeth Gymraeg y sir.

- Un o lwyddiannau allweddol y flwyddyn ariannol ddiwethaf oedd cyflwyno **gwefan ddwyieithog** a chredwn fod gennym brosesau ar waith i alluogi hyn i ddigwydd. Fel y nodwyd yn flaenorol rydym wedi gofyn i Siaradwyr Cymraeg Sir Fynwy ddal ati i herio ar gyflawni'r nod yma.
- Caiff erthygl ar y Gymraeg ei chyhoeddi unwaith y chwarter yn "**Team Spirit**", cylchgrawn staff mewnol y Cyngor, er mwyn codi diddordeb ac ymwybyddiaeth o'r iaith.
- Gwahoddir Menter Iaith Blaenau Gwent Torfaen Mynwy (Menter BGTM) a'r Urdd i fynychu **paneli ymgysylltu a digwyddiadau** r Cyngor ac maent yn aelodau o Grŵp Amrywiaeth a Chydraddoldeb Sir Fynwy i roi mewnbwn ar y Gymraeg i strategaethau a pholisïau allweddol y Cyngor.
- Y Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg yw **Cyd-gadeirydd Menter BGTM**.

## Dadansoddiad o Berfformiad yn ôl Blaenoriaethau a Thargedau

### Meysydd sydd angen eu trafod

Y camau gweithredu islaw a'r rhain na chafodd eu cwblhau o Flwyddyn 2 y Cynllun Gweithredu cynhwysfawr ar yr Iaith Gymraeg. Caiff y rhain eu trafod yn y flwyddyn ariannol nesaf - 2013 – 2014.

- **5.2.1** Ateb galwadau ffôn yn ddwyieithog.

**Gweithredu blwyddyn 2** - Archwilio ac adolygu drwy ymarferiad siopwr dirgel.

**Datrysiaid** - Unwaith y gorffenwyd rhestr o siaradwyr Cymraeg y Cyngor/cysylltiadau trydydd parti, anfonir nodyn canllaw i'r holl staff ar y broses ateb. Mae adrannau'n gyfrifol am fonitro drwy gynlluniau gwasanaeth eu hadran.

- **5.2.4** Darparu negeseuon ateb ffôn corfforaethol dwyieithog.

**Gweithredu blwyddyn 2** - Archwilio ac adolygu prosesau cyfredol.

**Datrysiaid** - Bydd y Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol yn rhoi gwybodaeth am leoliadau. Bydd y Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg a'r Swyddog Cefnogaeth Iaith Gymraeg yn gwneud y dasg.



- **6.7.1 - Cynhyrchu hysbysiadau swyddogion a chyhoeddus yn ddwyieithog**

**Gweithredu blwyddyn 2** - Ceisio/casglu rhestr o hysbysiadau cyhoeddus. Gwneud 30% o hysbysiadau Cymraeg/dwyieithog o gymharu â Saesneg yn unig.

**Datrysiad** - Trefnwyd y cyfarfod ar gyfer Mai 2014 gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithol i'w drafod a'i drin.

#### Arfer da – I

- Gweler adran 5 islaw

#### Monitro

- Cysylltwyd â'r **rhwydwaith** o 130 siaradwyr Cymraeg yn Sir Fynwy yn gofyn iddynt a allent graffu ar ddogfennau, cynlluniau, polisïau, strategaethau a llenwi ymgynghoriadau a holiaduron. Gofynnwyd iddynt hefyd ddefnyddio'r wefan Gymraeg a hysbysu'r Cyngor am unrhyw broblemau. Hyd yma bu hyn yn werth chweil iawn wrth ddangos dymuniad pobl i fedru defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Cyhoeddi Gwybodaeth ar Berfformiad

Unwaith y bydd wedi'i orffen, bydd yr adroddiad ar gael ar 'Y Pwynt' ac ar wefan gorfforaethol ddwyieithog y Cyngor, [www.monmouthshire.org](http://www.monmouthshire.org), ac mae'n hygyrch i'r cyhoedd yn gyffredinol a hefyd i staff y Cyngor. Bydd yr holl wybodaeth ar ei berfformiad ar gael i'r cyhoedd fel copi caled neu'n electronig drwy adran Gymraeg y wefan.

## Gwybodaeth Arall

### E-Lywodraethu (DIG 3)

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad yma, mae gan y Cyngor yn awr wefan ddwyieithog. Er mwyn cynnal ei statws cyfartal presennol yn nhermau cynnwys, rhoddwyd cwpllo fesurau diogelu allweddol yn eu lle:

- Ni ellir cyhoeddi cynnwys Saesneg heb fersiwn Cymraeg cyfatebol
- Aelod o'r Tîm Cyfathrebu Corfforaethol yw'r unig un a all gyhoeddi ar y wefan
- Cafodd rhwydwaith o aelodau o'r cyhoedd yn Sir Fynwy sy'n siarad Cymraeg gyda'r dasg o fonitro'r wefan o safbwynt iaith Gymraeg

### Manylion cyswllt

I gael manylion pellach ar unrhyw faterion sy'n deillio o'r adroddiad yma neu os hoffech dderbyn unrhyw ddogfennau i gefnogi'r wybodaeth a roddir yn yr adroddiad cysylltwch â:

Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

Neuadd y Sir

Y Rhadyr

Brynbuga

Sir Fynwy

NP15 1XJ

01633 644010

[alanburkitt@monmouthshire.gov.uk](mailto:alanburkitt@monmouthshire.gov.uk)

## Atodiad 1 - Siaradwyr Cymraeg yn Sir Fynwy yn ôl Ward

	Preswylwyr 3+	Siarad	Siarad	Siarad, Darllen ac Ysgrifennu	Siarad, Darllen ac Ysgrifennu
Enw'r Adran Etholiadol	Nifer	Nifer	%	Nifer	%
Brynbuga	2766	271	9.8	195	7
Caerwent	1735	151	8.7	114	6.6
Castell Cil-y-coed	1885	221	11.7	166	8.8
Cantref	1994	169	8.5	127	6.4
Castell	1749	173	9.9	127	7.3
Croesonnen	2330	232	10	160	6.9
Crucornau	2054	216	10.5	158	7.7
Devauden	1448	139	9.6	94	6.5
Dewstow	1888	172	9.1	120	6.4
Dixton ac Osbaston	2501	180	7.2	129	5.2
Drybridge	3291	346	10.5	238	7.2
Goetre Fawr	2332	270	11.6	197	8.4
Green Lane	2014	220	10.9	147	7.3
Grofield	1785	185	10.4	128	7.2
Hafren	1630	172	10.6	123	7.5
Lansdown	2125	202	9.5	129	6.1
Larkfield	1952	151	7.7	108	5.5
Llanbadog	1281	135	10.5	96	7.5
Llanelli Hill	3818	337	8.8	253	6.6
Llanfwyst Fawr	1811	211	11.7	158	8.7
Llangybi Fawr	1820	163	9	132	7.3
Llanover	2244	173	7.7	128	5.7
Llandeilo Gresynni	1718	164	9.5	118	6.9
Llanwenarth Ultra	1406	117	8.3	92	6.5
Maerdy	1432	150	10.5	109	7.6
Melin	2424	263	10.8	209	8.6
Mitchel Troy	1221	108	8.8	86	7
Overmonnow	2314	196	8.5	146	6.3

Porthysgewin	2083	220	10.6	167	8
Priordy	2117	219	10.3	166	7.8
Rhaglan	1876	209	11.1	144	7.7
Rogiet	1747	272	15.6	203	11.6
St. Arvans	1569	134	8.5	95	6.1
St. Christopher's	2490	299	12	214	8.6
St. Kingsmark	3032	247	8.1	186	6.1
St. Mary's	1776	120	6.8	82	4.6
Shirenewton	2158	172	8	112	5.2
The Elms	3536	452	12.8	335	9.5
Thornwell	2630	282	10.7	189	7.2
Trellech Unedig	2694	261	9.7	187	6.9
West End	1861	199	10.7	155	8.3
Wyesham	2072	207	10	151	7.3
<b>Cyfanswm</b>	<b>88609</b>	<b>8780</b>	<b>9.90%</b>	<b>6373</b>	<b>7.20%</b>

## Atodiad 2 - Siaradwyr Cymraeg yn ôl adran - Dangosydd Perfformiad DIG5 Bwrdd yr Iaith

### Gymraeg

Gallu ieithyddol-  
Rhugl/Uwchradd/Canolradd/Sylfaen/Mynediad

Enw	Adran	LLEOLIAD	Gallu	Cwrs/Ble magwyd	Cymhwyster/ Gradd
David Barnes	Partneriaeth ac Ymgysylltu	Coed Glas	Rhugl	Gwynllyw	B/B
Leigh Beach	Trwyddedu	Theatr Melville	Rhugl	Gwynllyw	
Alan Burkitt	Partneriaeth ac Ymgysylltu	Brynbuga	Rhugl	WLPAN/ Lefel O ac A	A/A
Mark S Davies	Penseiri	Magwyr	Rhugl		
Ted Davies	Casglwr Sbwriel	Y Fenni	Rhugl	Dosbarth Nos	Pas
Megan De Silva	Amgueddfeydd	Amg Cas-gwent	Rhugl	Gogledd	
Jaime Evans	Action for Children	SLA Gofal Cym	Rhugl	Ysgol Cwm Rhymni	
Ioan Gealy	Cyfreithiol	Brynbuga	Rhugl	Aberystwyth	
Hywel Griffiths	Gwasanaethau Cyfreithiol	Stryd Tudor	Rhugl	Ysgol Cwm Rhymni	
Lee Godwin	Technoleg Gwybodaeth (SRS)	Blaenafon	Rhugl		
David Jones	Cynghorydd	Crucornau	Rhugl	Penrhyncoch	
Sarah McGuinness	Plant a Phobl Ifanc	Brynbuga.	Rhugl	Cwm Rhymni	
Bethan North	Plant a Phobl Ifanc/Ysgolion Iach	Brynbuga.	Rhugl	Iaith gyntaf	
Mike Richardson	Iechyd yr Amgylchedd	Trefynwy	Rhugl	Aberdyfi/Caerfyrddin	
Siân Sexton	Rheolwr Hyfforddiant	Magwyr	Rhugl		
Pete Tamlyn	Gwasanaethau Cymdeithasol	Severn View	Rhugl	Abertawe	
Alun Thomas	Iechyd yr Amgylchedd	Trefynwy	Rhugl	Caerfyrddin	

Jill Thomas	Adnoddau Dynol	Magwyr	Rhugl	Castell Newydd Emlyn	B/E
Alun Thomas	Gwasanaethau Cymdeithasol	Gofal Cartref YF	Rhugl		TGAU
Roma Zdbeilo	Gwasanaethau Ieuencid		Rhugl		
Elen McElroy	Gwasanaethau Cymdeithasol	Iechyd Meddwl	Rhugl	Canolfan Hywel Dda	Cas-gwent
Carol Ann Young	Gwasanaethau Ieuencid	Face 2 Face	Rhugl	Tŷ Mounton	
Jacalyn Richards	Gwasanaethau Cymdeithasol	Troseddu Ifanc	Rhugl		
Claire Jones	Plant a Phobl Ifanc	SPLD	Rhugl		
Adrian Woods	Hamdden		Rhugl	Cwrs Mynediad - Uwch	Astudio
Simon Burch	Gwasanaethau Cymdeithasol	Magwyr	Uwchradd		
Liz Williams	Cyllid	Magwyr	Uwchradd	Cwrs Mynediad - Uwch	Astudio
Guy Delamere	Adfywio	Brynbuga	Uwchradd	Cwrs Mynediad - Uwch	
Deserie Mansfield	Adfywio	Brynbuga	Uwchradd		
Wayne Moriarty	Gwasanaethau Cymdeithasol	Severn View	Uwchradd	07736 004113	
Morag Sinton	Cynllunio Cefn Gwlad	Brynbuga	Uwchradd	Cwrs Uwch 2	
Sarah Keogh	Gwasanaethau Cymdeithasol	Gofal Cartref YF	Canolradd	TGAU haen uwch	
Heather Heaney	Gwasanaethau Cymdeithasol	Diogelu	Canolradd	Lefel A/Uwch/Meistroli	
John Davies	Gwasanaethau Eiddo	Magwyr	Canolradd	Rhydaman	
Rob Webb	Rheolwr Cyfathrebu	Magwyr	Canolradd		
Sharon Randall Smith	Plant a Phobl Ifanc	Magwyr	Canolradd	Diploma yn y Gymraeg	
Dewi Jones	Cyfathrebu	Magwyr	Canolradd		
Carolyn Derosaire	Swyddog Diogelwch Ffordd	Depo Rhaglan	Canolradd	Cwrs Mynediad/Lefel O	
Dan Davies	Swyddog Arloesedd	Brynbuga	Canolradd	Lefel A	A
Clare Morgan	Gwasanaethau Cymdeithasol	Maindiff Court	Canolradd	OCN x4/CBAC mynediad/ sylfaen	
Mark Langley	Cynllunio	Cefn Gwlad	Canolradd	Lefel O	

Lisa Roberts	Adnoddau	Depo Rhaglan	Sylfaen	Cwrs Mynediad/ Sylfaen	
Tracey Finnis	Tai		Sylfaen	Cwrs Mynediad x 3	
Leanne Jones	Gweithiwr Cymdeithasol	Maethu	Sylfaen	Cwrs Sylfaen	astudio
Cyng Sara Jones	Cynghorydd	Llanofor	Sylfaen	WLPAN 1	
Sarah Harp	Partneriaeth ac Ymgysylltu	Brynbuga	Sylfaen	TGAU A	
Angela Guest	Dyledwyr Amrywiol	Magor	Mynediad	Cwrs Mynediad 2 fl.	
Roger Joy	Goleuadau Stryd	Pont-y-pŵl	Mynediad	Cwrs Mynediad Bl. 1 x 2	
Cyng Giles Howard	Cynghorydd Gilwern/Llanelli Hill	Magwyr	Mynediad	Cwrs Mynediad	
Debra Hill-Howells	Stadau	Magwyr	Mynediad	GCSE/ Cwrs Mynediad	astudio
Rachael Rogers	Curadur	Castell y Fenni	Mynediad	Pas Sylfaen - 5 mlynedd	
Deirdre Poulson	Cefnogaeth Cyfarwyddiaeth	Magwyr	Mynediad	Ysgol a Chwrs CSF	
Julie Taylor	Gwarchodwr Castell	Y Fenni	Mynediad		
Simone Teunissen	Datblygu Economaidd	Aventa	Mynediad	Cwrs Mynediad	
Alison Nowell	Derbynnnydd	Magwyr	Mynediad	Dosbarth Nos 2 flynedd	
Murray Andrews	Swyddog Cyfreithiol	Magwyr	Mynediad	Dosbarth Nos 1 flwyddyn	
Rhian Cook	Swyddog Cefnogaeth Prosiect	Coed Glas	Mynediad	Cymraeg i'r Teulu	
Tracey Thomas	Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid	Magwyr	Mynediad	Dosbarth Nos cyflawn	
Helen Nevill	Gwasanaethau Cymdeithasol	Magwyr	Mynediad	Cwrs Mynediad 1 - 15	
Cyng Linda Guppy	Cynghorydd	Cil-y-coed	Mynediad	Dosbarth Nos	
Cyng Maureen Powell	Cynghorydd	Y Fenni	Mynediad	Dosbarth Nos	
Hazel Ilett	Swyddog Craffu	Brynbuga	Mynediad	WLPAN (DNC)/Cwrs Mynediad	
Rob Tranter	Pennaeth Gwasanaethau	Brynbuga	Mynediad	Blaenau Gwent	

	Cyfreithiol				
Peter Mullen	Priffyrdd	Depo Rhaglan	Mynediad	Cwrs Mynediad	
Paul Keeble	Priffyrdd	Magwyr	Mynediad	Cwrs Mynediad	
Jess Roberts	Cyfathrebu	Brynbuga	Mynediad	Cwrs Mynediad	
Amy Gullick	Democratiaeth a Pherfformiad	Brynbuga	Mynediad	TGAU 3	
Tudor Baldwin	Cyfreithiol	Brynbuga	Mynediad	Dosbarth Nos 2 flynedd	
Annie Bartlett	Cyfreithiol	Brynbuga	Mynediad	Dosbarth Nos 2 flynedd	
Linda Watkins	Cyfreithiol	Brynbuga	Mynediad	Dosbarth Nos 2 flynedd	
Sandra Wood	Gwasanaethau Cymdeithasol		Mynediad	Cwrs Mynediad	astudio
Liz Thomas	CMC2	Magwyr	Mynediad	Cwrs Mynediad	astudio
Louise McGuinness	Aventa		Mynediad	Cwrs Mynediad	astudio
Jo Collett	Gwasanaethau Cymdeithasol	Troseddu Ifanc	Mynediad	Cwrs Mynediad	astudio
Steve Beard	Gwasanaethau Cyfreithiol		Mynediad	Cwrs Mynediad	
Carol Phillips	Gwasanaethau Cyfreithiol	Mai	Mynediad	Gweithiwr Cymdeithasol dan hyfforddiant	
Sacha Brown	Gwasanaethau Cymdeithasol	Cas-gwent	Mynediad	Gweithiwr Cymdeithasol dan hyfforddiant	
Alis Bedell	Gwasanaethau Cymdeithasol	Y Fenni	Mynediad	Ysgol 20 mlynedd yn ôl	
<b>19 a 25 Mehefin 2013</b>	<b>Cwrs blasu 2 ddiwrnod</b>				
Julie Edwards	Arch Rowan Williams	Cilycoed	Blasu 2diwrnod		
Richard Wellington	Warden Parcio	Y Fenni	Blasu 2diwrnod	Cwrs Mynediad	
Amelia Wheatstone	Partneriaeth ac Ymgysylltu	Brynbuga	Blasu 2diwrnod		
Owain Jones	Partneriaeth ac Ymgysylltu	Brynbuga	Blasu 2diwrnod		
Amy Elliott	Partneriaeth ac Ymgysylltu	Brynbuga	Blasu 2diwrnod		
Geraint Spacey	Troseddu Ieuencid		Blasu		



			2diwrnod		
Jo Collet	Troseddu Ieuencid		Blasu 2diwrnod	Cwrs Mynediad	studying
Andrea Williams	Troseddu Ieuencid		Blasu 2diwrnod		
Pete Mullen	Priffyrdd	Depo Rhaglan	Blasu 2diwrnod		
Nicola Taylor	Budden Cres	Cil-y-coed	Blasu 2diwrnod		
Wendy Mustow	Priffyrdd	Depo Rhaglan	Blasu 2diwrnod		
Sue Dryburgh	Gwasanaethau Cymdeithasol	Magwyr	Blasu 2diwrnod		
Helen Dodds	Twristiaeth	Gorsaf Tyndyrn	Blasu 2diwrnod		
Rebecca Hollis	Twristiaeth	Gorsaf Tyndyrn	Blasu 2diwrnod		
Yvonne Davies	Twristiaeth	Gorsaf Tyndyrn	Blasu 2diwrnod		
Paul Keeble	Priffyrdd	Depo Rhaglan	Blasu 2diwrnod		
Debbie Blakebrough	Cynghorydd	Tryleg Unedig	Blasu 2diwrnod		
Jo Goodwin	Cyfathrebu	Brynbuga	Blasu 2diwrnod		